


## Tasg 2

# Hwyl!

1. Meddylwch am gamp “wahanol” neu gamp “eithafol” arall, e.e.:



2. Sut mae gwneud y gamp? e.e.:

Rhaid cael haearn smwddio a bwrdd smwddio.

Rhaid mynd i fyny mynydd, neu syrffio, neu sefyll yn y pwll nofio a smwddio.

**neu**

Mae pobl yn cael haearn smwddio a bwrdd smwddio.

Maen nhw'n mynd i fyny mynydd, neu maen nhw'n syrffio, neu maen nhw'n sefyll yn y pwll nofio ac maen nhw'n smwddio.

3. Siaradwch am y campau mewn grŵp. Dwedwch beth rydych chi'n feddwl o'r campau yma. Cofiwch roi rhesymau.

Os ydych chi eisiau help, edrychwch yn yr adran **Mynegi Barn**.

4. Mae papur bro yn gofyn i chi ysgrifennu darn am **gamp wahanol neu eithafol**.

Ysgrifennwch am y gamp. Rhaid i chi ddweud:

- beth ydy'r gamp
- ble mae pobl yn gwneud y gamp
- sut mae gwneud y gamp
- eich barn chi am y gamp – cofiwch roi rhesymau.

### Geirfa

bryn / rhiw	hill	smwddio	ironing
camp	sport	haearn	iron
gwahanol	different	papur bro	community newspaper
eithafol	extreme	eirafyrddio	snowboarding